



Department
for Environment,
Food & Rural Affairs



Department of
**Agriculture, Environment
and Rural Affairs**

www.daera-ni.gov.uk



Scottish
Government
gov.scot



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Technegau Gorau sydd ar Gael yn y DU ar gyfer atal neu leihau effeithiau ar yr amgylchedd gan ddiwydiant

Mawrth 2026

Rydym yn gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydym hefyd yn cefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sydd gyda'r gorau yn y byd.

Adran weinidogol yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), a gefnogir gan 34 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.



© Hawlfraint y Goron 2026

Trwyddedir yr wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn consultation.coordinator@defra.gov.uk.

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd adborth ar y Technegau Gorau sydd ar Gael (BAT), Lefelau Allyriadau Cysylltiedig â BAT (BAT-AELs) a Lefelau Perfformiad Amgylcheddol BAT (BAT-AEPLs) ar gyfer gwahanol sectorau, gan gynnwys prosesu metelau fferrus (ffurfio a galfaneiddio), tecstilau a rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y diwydiant cemegion ledled y DU.

Datblygwyd y safonau hyn drwy broses gydweithredol gan Weithgorau Technegol (TWGs), a ddaeth ag arbenigedd o bob sector perthnasol at ei gilydd. Mae'r TWGs wedi dod i gonsensws ar yr argymhellion hyn a nawr rydym yn gofyn am fewnbwn gan y cyhoedd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion a safbwyntiau'r holl randdeiliaid.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn arbennig o berthnasol i weithgynhyrchwyr, gweithredwyr safleoedd a grwpiau sy'n cynrychioli'r diwydiant yn y sectorau yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, mae'n agored i unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd â diddordeb yn y diwydiannau hyn.

Hyd a lled daearyddol

Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, trosglwyddodd y pŵer i ddiffinio Casgliadau BAT (BATC) i bob llywodraeth yn annibynnol. Mae Llywodraeth y DU (yn gweithredu ar ran Lloegr) a Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon wedi cytuno i barhau â dull gweithredu ar draws y DU i ddatblygu'r BAT i ddiwydiant y DU. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd gan y pedair gweinyddiaeth.

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am 8 wythnos. Mae'n agor ar 19fed o Fawrth a bydd yn cau ar 14fed o Fai.

Rydym yn annog ymatebion drwy arolwg ar-lein ar Citizen Space, adnodd ymgynghori ar-lein. Dyma'r dull a ffefrir gan yr adran ar gyfer derbyn ymatebion. Mae ymgynghoriadau'n cael llawer iawn o ddiddordeb ar draws nifer o sectorau, ac mae defnyddio'r adnodd ar-lein yn ein helpu i ddadansoddi ymatebion, gan alluogi ystyriaeth fwy effeithlon ac effeithiol o faterion.

Gellir cwblhau'r ymgynghoriad ar-lein drwy [Citizen Space](#)

Fodd bynnag, derbynnir ymatebion a gyflwynir drwy e-bost i Control.Pollution@defra.gov.uk neu drwy'r post i'r cyfeiriad isod.

Air Quality & Industrial Emissions Policy Team
Defra Ground Floor
Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P4DF

Bydd eich ymateb yn ddefnyddiol iawn os caiff ei fframio mewn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, er y croesewir rhagor o sylwadau a thystiolaeth hefyd. Os ydych chi'n anfon eich ymateb drwy e-bost neu'r post, cofiwch gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- eich enw
- eich cyfeiriad e-bost
- eich sefydliad (os yw'n berthnasol)
- a hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol (os hoffech, nodwch eich rhesymau)

Sylwch, mae'n rhaid i unrhyw ymatebion a gaiff eu hanfon drwy e-bost neu'r post fod wedi cyrraedd erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad i gael eu cyfri. Ni fyddwn yn dadansoddi unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. I sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb ar-lein ar Citizen Space.

Ar ôl yr ymgynghoriad

Pan ddaw'r ymgynghoriad hwn i ben, byddwn yn cadw copïau'n ddiogel. Gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am gopi o ymatebion o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Os nad ydych am i'ch ymateb – gan gynnwys eich enw, eich manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth bersonol arall – fod ar gael i'r cyhoedd, nodwch hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad. Sylwch, os yw eich cyfrifiadur yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd yn awtomatig, ni fydd hynny'n cyfrif fel cais cyfrinachedd. Esboniwch pam fod angen i chi gadw manylion yn gyfrinachol. Byddwn yn ystyried eich rhesymau os bydd rhywun yn gofyn am yr wybodaeth o dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth. Fodd bynnag, oherwydd y gyfraith, ni allwn warantu y byddwn bob amser yn gallu cadw'r manylion hynny'n gyfrinachol.

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn rhoi'r crynodeb hwn ar ein gwefan yn www.gov.uk/defra. Bydd y crynodeb hwn yn cynnwys rhestr o enwau sefydliadau a oedd wedi ymateb, ond ni fydd yn cynnwys enwau pobl, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Rhowch 24 awr a mwy o rybudd i ni os hoffech weld yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r crynodebau. Codir tâl am lungopïo a phostio.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw at: consultation.coordinator@defra.gov.uk.

Cynnwys

Cyflwyniad	6
Proses BAT y DU	6
Strwythur y ddogfen ymgynghori	9
Cwestiynau.....	12
Adran 1. Gwybodaeth amdanoch chi.....	12
Adran 2. Y sector prosesu metelau fferrus (ffurfio).....	13
Adran 3. Y sector prosesu metelau fferrus (galfaneiddio).....	15
Adran 4. Y sector tecstilau.....	18
Adran 5. Rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol.....	22
Beth nesaf?	27
Geirfa.....	28

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i safleoedd diwydiannol sy'n ymgymryd â mathau penodol o weithgarwch ddefnyddio'r [Technegau Gorau sydd ar Gael](#) (BAT) i atal a lleihau allyriadau i'r aer, dŵr a thir. Mae'r BAT yn cyfeirio at y technegau mwyaf effeithiol a datblygedig sy'n hyfyw yn economaidd ac yn dechnegol i'r sector diwydiant ac sydd orau ar gyfer atal neu leihau allyriadau ac effeithiau ar yr amgylchedd yn gyffredinol.

Mae'r 'technegau' yn cynnwys y dechnoleg a ddefnyddir a'r ffordd mae'r safle'n cael ei ddylunio, ei adeiladu, ei gynnal, ei weithredu a'i ddatgomisiynu. Defnyddir BAT i bennu'r mathau o dechnolegau a dulliau atal y dylai gweithredwyr eu rhoi ar waith, yn ogystal â sefydlu lefelau allyriadau cysylltiedig. Mae'r rhain wedyn yn cael eu defnyddio i bennu gwerthoedd terfyn allyriadau unigol yn nhrwydded amgylcheddol pob safle.

Mae rheoleiddio allyriadau diwydiannol yn effeithlon nid yn unig yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd, ond mae hefyd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau twf economaidd cynaliadwy, pŵer glân ac iechyd cymunedol.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw casglu eich safbwyntiau a'ch adborth ar y BATC, BAT-AELs a BAT-AEPLs arfaethedig sydd wedi cael eu datblygu ar gyfer y sectorau canlynol yn y Deyrnas Unedig:

1. Prosesu metelau fferrus (ffurfio) (FMPF)
2. Prosesu metelau fferrus (galfaneiddio) (FMPG)
3. Tecstilau (TXT)
4. Systemau rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol (WGC)

Datblygwyd y BATC hyn ar sail allbynnau o broses [Dogfen Gyfeirio'r Dechneg Orau sydd ar Gael](#) (BREF) yr UE, y cymerodd cynrychiolwyr y DU ran ynddi tan 31 Ionawr 2020. Roedd y broses hon hefyd yn cynnwys mewnbwn gan Weithgorau Technegol (TWGs) sector-benodol, a wnaeth ddarparu sylwadau a thystiolaeth. Cafodd BATC terfynol y DU eu cynhyrchu gan ddefnyddio tystiolaeth o arferion presennol y diwydiant, gweithgareddau'r sector a chyflwyniadau rheoleiddio yng nghyd-destun y DU.

Mae eich mewnbwn a'ch safbwyntiau ar y BATC arfaethedig hyn yn werthfawr a byddant yn cyfrannu at gadernid ac effeithiolrwydd fframwaith gweithdrefn BAT y DU sydd â'r nod o leihau effaith amgylcheddol y sectorau diwydiannol hyn.

Proses BAT y DU

Datblygwyd [cytundeb dros dro Fframwaith Cyffredin BAT](#) ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r cytundeb hwn yn fframwaith cydweithredol rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i reoleiddio llygredd, hwyluso twf economaidd drwy safonau symlach, a sefydlu dull gweithredu ar y cyd ar gyfer defnyddio'r BAT ledled y DU. Mae'r

Fframwaith hwn, a amlinellir mewn Concordat, yn nodi sut maent yn gweithio gyda'i gilydd i sefydlu, cynnal ac adolygu'r BAT. Mae'n ymdrin â rhwymedigaethau rhyngwladol, datrys anghydfodau, prosesau gwneud penderfyniadau, ac yn canolbwyntio ar osod y BAT ar gyfer y DU. Mae'r Fframwaith yn ceisio sicrhau cysondeb i ddiwydiant y DU ar yr un pryd â chydabod y gallai fod angen i wahanol rannau o'r DU sefydlu eu rheolau eu hunain ynghylch y BAT.

Mae gweithdrefn BAT y DU, a sefydlwyd ar ôl [ymgyngoriad](#) yn 2021, yn seiliedig ar ddata tryloyw a chydweithredol, a phroses sy'n seiliedig ar dystiolaeth lle mae rhanddeiliaid, gan gynnwys rheoleiddwyr a'r diwydiant, yn gweithio gyda'i gilydd i osod safonau sy'n diogelu ac yn adeiladu ar y lefelau uchel o ddiogelu'r amgylchedd sydd eisoes ar waith.

Mae cam cyntaf o adolygiadau sector (y cyfeirir atynt fel 'Tranche 1') yn cynnwys **prosesu metelau fferrus** (wedi'u rhannu'n brosesau 'ffurfio' a 'galfaneiddio' i alinio'n well â system reoleiddio'r DU), **tecstilau a rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y diwydiant cemegion**. Dewiswyd y sectorau hyn i'w hadolygu yn gyntaf gan eu bod eisoes yn destun adolygiad fel rhan o broses BREF yr UE yr oedd y DU wedi bod yn rhan ohoni.

Sefydlwyd TWGs sector-penodol, a oedd yn cynnwys arbenigwyr diwydiant, awdurdodau rheoleiddio a phartïon eraill â diddordeb sydd â'r arbenigedd technegol, amgylcheddol, economaidd neu reoleiddiol angenrheidiol i gyfrannu'n weithredol. Er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r BAT, mae'r TWGs yn:

- **Nodi safleoedd sy'n perfformio'n dda:** Maent yn nodi safleoedd sy'n arddangos perfformiad amgylcheddol rhagorol yn eu sectorau penodol.
- **Casglu data:** Maent yn casglu data cynhwysfawr ar y technegau atal a rheoli llygredd a ddefnyddir gan y safleoedd hyn sy'n perfformio'n dda, gan gynnwys lefelau allyriadau a defnydd, a dangosyddion perfformiad amgylcheddol eraill (gan gynnwys data lefel yr UE ar gyfer Tranche 1).
- **Pennu BAT:** Ar sail y data a gasglwyd, mae'r TWGs yn pennu'r technegau gorau sydd ar gael ar gyfer eu sectorau perthnasol.
- **Gosod lefelau allyriadau a pherfformiad:** Mae'r TWGs hefyd yn pennu'r lefelau allyriadau (BAT-AELs) a lefelau perfformiad amgylcheddol eraill (BAT-AEPLs) sy'n gysylltiedig â'r BAT a nodwyd.

Mae'r BATC yn yr ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu canlyniad trafodaethau technegol manwl yn y TWGs. Er bod Tîm BAT y DU yn hwyluso ac yn cefnogi'r broses hon, nid yw'n penderfynu ar y BATC. Mae aelodau'r TWG yn cyfrannu gwybodaeth a thystiolaeth sy'n benodol i'r sector drwy gyfres o gyfarfodydd a gynhelir dros gyfnod estynedig. Mae'r cyfarfodydd hyn yn darparu fforwm ar gyfer trafodaeth agored, her adeiladol a mireinio syniadau. Mae'r casgliadau'n cael eu llunio ar y cyd, gydag arbenigwyr yn rhannu eu profiad a'u gwybodaeth i sicrhau bod y technegau a'r lefelau allyriadau arfaethedig yn briodol i'r diwydiant, yn ymarferol i'w gweithredu ac yn addas i'r diben.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno BATC 'Tranche 1' a'r Canllawiau Dehongli a'r dogfennau Gwybodaeth Ategol i gael sylwadau arnynt. Mae'r dogfennau BATC a gyflwynir ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys disgrifiad byr o'r BAT ar gyfer pob sector,

ynghyd â'u perthnasedd a'u lefelau allyriadau neu ddefnydd cysylltiedig. Bydd y BATC yn cael ei roi ar waith gan ddefnyddio offerynnau statudol, a byddant yn gweithredu fel safonau ar gyfer pennu terfynau allyriadau a rhoi trwyddedau gweithredu i safleoedd diwydiannol perthnasol yn y DU.

Cenhadaeth Twf

Cenhadaeth ganolog llywodraeth y DU yw twf economaidd. Mae rheoleiddio sectorau diwydiannol yn effeithlon ac mewn ffordd syml yn hanfodol er mwyn sicrhau twf parhaus. Mae'r BATC sydd wedi'u diweddarau yn helpu busnesau i ddefnyddio'r technegau diweddaraf, lleihau eu heffaith amgylcheddol a dod yn fwy cynhyrchiol ac arloesol. Mae'r BATC hyn hefyd yn ei gwneud yn haws i ddiwydiannau ddilyn rheoliadau clir a syml, sy'n cefnogi twf a buddsoddiadau cynaliadwy. Mae system drwyddedu sy'n gweithio'n dda yn galluogi twf drwy osod fframwaith rheoleiddio clir, ymatebol a chymesur sy'n cefnogi buddsoddiad mewn technolegau glân, arloesedd a thwf.

Hyd a Lled y Newidiadau

Mae'r BATC sydd wedi'u diweddarau yn adlewyrchu newidiadau mewn arferion diwydiannol, datblygiadau mewn technoleg a thystiolaeth gyfredol ar effeithiau amgylcheddol ac iechyd. Maent yn cyflwyno gofynion llymach a mwy penodol, gan godi'r llinell sylfaen ar gyfer perfformiad amgylcheddol ar draws sectorau. Nod y newidiadau hyn yw lleihau allyriadau, gwella effeithlonrwydd adnoddau ac annog perfformiad amgylcheddol mwy cyson ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

Effaith y Newidiadau ar Fusnesau

Cynhaliwyd asesiad de minimis (DMA) ar gyfer pob sector i amcangyfrif y gost uniongyrchol net flynyddol gyfatebol i fusnesau o gydymffurfio â'r safonau BAT diweddaraf. Roedd yr asesiad hwn yn ystyried costau dros gyfnod o 10 mlynedd ac yn cadarnhau bod disgwyl i gyfanswm y gost ar draws yr holl fusnesau o fewn y cwmpas aros yn is na £10 miliwn y flwyddyn.

Adolygodd y TWG y BATC ar gyfer pob sector yn drylwyr, gan nodi'r rheini sydd â'r effeithiau ariannol neu weithredol mwyaf posibl. Mae'r DMA yn canolbwyntio ar y costau sy'n gysylltiedig â'r BATC hyn, a'r technegau sydd eu hangen i'w diwallu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cwestiynau wedi'u targedu ar y technegau allweddol hynny. Er bod y dadansoddiad manwl o gostau wedi'i gyfyngu i'r technegau allweddol hyn, mae'r DMA hefyd yn ystyried manteision amgylcheddol a gweithredol ehangach gweithredu'r set lawn o BATC sydd wedi'u diweddarau.

Mae'r DMA yn cydnabod, o dan Erthygl 15(4) y [Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol](#) (IED), y gall awdurdodau cymwys ganiatáu rhanddirymiadau mewn amgylchiadau penodol. Mae hyn yn golygu, mewn achosion penodol, y gellir defnyddio gwerthoedd terfyn allyriadau (ELVs) llai llym na'r rhai sy'n gysylltiedig â'r BAT. Caniateir

rhanddirymiadau o'r fath pan fyddai bodloni BAT-AELs yn arwain at gostau anghymesur o uchel i fusnesau o'u cymharu â'r manteision amgylcheddol a gyflawnir.

Mae'r dull hwn o asesu costau a manteision yn sicrhau bod pob DMA yn canolbwyntio ar y technegau sydd â'r baich posibl mwyaf sylweddol ar yr un pryd ag adlewyrchu manteision ehangach y BAT diweddaraf. Mae llawer o fusnesau eisoes yn gosod offer newydd ac yn mabwysiadu technolegau newydd fel rhan o amserlenni cynnal a chadw wedi'u cynllunio a strategaethau buddsoddi tymor hir. Mae'r cysondeb hwn â chynlluniau busnes presennol yn golygu bod gweithredu'r BAT yn aml yn cyd-fynd â'r cylchoedd uwchraddio disgwylidig, gan helpu i leihau costau ychwanegol. Ar ben hynny, mae gan lawer o fusnesau'r offer neu'r safonau angenrheidiol yn barod i fodloni'r terfynau allyriadau diweddaraf, gan leihau ymhellach yr angen am fuddsoddiad newydd sylweddol.

Yn ogystal ag asesu costau, mae'r dadansoddiad hefyd yn ystyried y manteision amgylcheddol a ragwelir, gan ganolbwyntio ar leihau allyriadau llygryddion niweidiol a lleihau gwastraff. Dylai mabwysiadu'r BAT diweddaraf nid yn unig arwain at ddiogelu'r amgylchedd yn well, ond gall hefyd wella effeithlonrwydd gweithredol busnesau. Drwy symleiddio prosesau, gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau a mabwysiadu technolegau mwy effeithiol, gall busnesau leihau eu gwastraff a'u defnydd o ynni, gan arwain at arbedion cost a gwell cynhyrchiant.

Yn gyffredinol, dangosodd y dadansoddiad cost a budd fod y manteision sylweddol yn drech na'r gwariant cyfalaf cychwynol a'r costau gweithredol parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu'r BATC diweddaraf. Mae'r manteision hyn yn cynnwys gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau niweidiol a gwastraff, yn ogystal â gwelliannau mewn effeithlonrwydd busnes.

Strwythur y ddogfen ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am adborth ar y pedwar sector isod. Er mwyn bod yn effeithlon, rydym yn ymgynghori ar nifer o sectorau gyda'i gilydd.

Mae cwblhau pob adran yn ddewisol, felly dim ond ar gyfer y rhai sy'n berthnasol i chi y mae angen i chi roi adborth. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod eich sylwadau'n cael eu cofnodi a'u hystyried yn gywir.

- Adran 1: Gwybodaeth amdanoch chi
- Adran 2: Prosesu metelau fferrus (ffurfio)
- Adran 3: Prosesu metelau fferrus (galfaneiddio)
- Adran 4: Tecstilau
- Adran 5: Rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol

Mae'r ymgynghoriad wedi'i strwythuro fel a ganlyn ar gyfer pob sector:

- a. **Amdanoch chi neu eich sefydliad** Gwybodaeth Gyffredinol.

- b. **Cwestiynau sy'n canolbwyntio ar dechnegau penodol:** Cwestiynau am dechnegau mae'r TWG yn credu sy'n cynrychioli'r newidiadau mwyaf sylweddol i'r diwydiant roi'r BAT ar waith. (Dewisol: Atebwch dim ond os yw'n berthnasol i chi neu os oes gennych farn benodol).
- c. **Cwestiynau cyffredinol am y BATC:** O ystyried hyd a chymhlethdod technegol y dogfennau BATC, mae'r adran hon yn rhoi cyfle i rannu sylwadau neu bryderon ychwanegol ar unrhyw agwedd ar y BATC.

Cyn rhoi adborth, adolygwch y BATC drafft, y canllawiau dehongli a'r dogfennau gwybodaeth atodol ar gyfer y sector(au) sydd fwyaf perthnasol i'ch arbenigedd neu eich diddordeb. Mae'r dogfennau BATC ar gael yma:

<https://www.gov.uk/government/groups/uk-bat#current-status-of-uk-batc>

Defnyddio eich gwybodaeth a'i rhannu

Mae ffordd rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a'r ymarfer galwad am dystiolaeth, sydd ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-for-evidence-exercises-privacy-notice>

Gwybodaeth arall

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet, sydd ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/703564/Consultation_principles_.pdf

Cwestiynau

Adran 1. Gwybodaeth amdanoch chi

Q1. A ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

- Ydw
- Nac ydw

Os mai 'Ydw' oedd eich ateb, rhowch eich rheswm (testun agored)

Q2. Beth yw eich enw? (testun agored)

Q3. Beth yw eich cyfeiriad e-bost? (testun agored)

Q4. Ydych chi'n ymateb fel: (Dewiswch un opsiwn yn unig)

- diwydiant
- aelod o'r cyhoedd
- corff cyhoeddus neu awdurdod lleol
- corff masnach
- corff academiaidd
- sefydliad anllywodraethol
- arall (nodwch)

Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, beth yw ei enw? (testun agored)

Q5. Ym mha ran(nau) o'r Deyrnas Unedig ydych chi wedi'ch lleoli? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Lloegr
- Cymru
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon
- Arall (nodwch)

Adran 2. Y sector prosesu metelau fferrus (ffurfio)

Cefndir

Mae'r sector prosesu metelau fferrus (ffurfio) yn defnyddio technegau gweithgynhyrchu amrywiol gan gynnwys rholio poeth, rholio oer a thynnu gwifrau. Disgrifir gwybodaeth am y gwahanol weithgareddau gweithgynhyrchu sy'n berthnasol i'r DU yn [Nogfen Gyfeirio'r Technegau Gorau sydd ar Gael](#) ar gyfer y Diwydiant Prosesu Metelau Fferrus.

Mae cynnyrch sy'n deillio o'r prosesau hyn yn cynnwys cynhyrchion gwastad wedi'u rholio, fel stribedi a phlatiau trwm, cynnyrch hir fel rheiliau a bariau, yn ogystal â thiwbiau.

Trosolwg o safleoedd rheoledig yn y DU

Yn 2023, roedd gan y sector prosesu metelau fferrus (ffurfio) 21 o safleoedd trwyddedig yn y DU. 13 yn Lloegr, 7 yng Nghymru ac 1 yn yr Alban.

Mae'r rhan fwyaf o'r sector diwydiant yn ymwneud â gweithgareddau melinau rholio poeth, ac mae rhai ohonynt yn rhan o waith haearn a dur integredig ehangach. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys safleoedd tynnu gwifrau a gweithgareddau rholio oer.

BATC y DU ar gyfer y Diwydiant Prosesu Metelau Fferrus (ffurfio)

[Drafft ffurfiol BATC y DU ar gyfer y Diwydiant Prosesu Metelau Fferrus \(Ffurfiol\)](#)

[Canllawiau dehongli a gwybodaeth atodol drafft ffurfiol BATC y DU ar gyfer y Diwydiant Prosesu Metelau Fferrus \(Ffurfiol\)](#)

Prosesu metelau fferrus (ffurfio) - cwestiynau penodol

Ar sail proses sgrinio a oedd yn cynnwys mewnbwn gan aelodau'r TWG, nodwyd y BATC a allai arwain at y newidiadau mwyaf sylweddol mewn allyriadau neu gostau i'r diwydiant. Manylir isod ar y BATC a nodwyd drwy'r broses hon, ynghyd â chwestiynau penodol ar bob un o'r rhain.

Allyriadau i'r aer o wresogi

Mae'r BAT yn gofyn am ddefnyddio technegau i atal neu leihau allyriadau i'r aer o wresogi wrth brosesu, monitro allyriadau sydd wedi'u sianelu a chydymffurfio â lefelau allyriadau sy'n gysylltiedig â BAT (BAT-AELs).

- Mae **BAT 35** yn ymdrin â thechnegau a BAT-AELs i leihau allyriadau llwch.
- Mae **BAT 37** yn ymdrin â thechnegau a BAT-AELs i leihau allyriadau NO_x.
- Mae **BAT 6** yn ymdrin â'r gofynion monitro.

Q6. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro yn briodol i'r diwydiant i leihau'r allyriadau canlynol i'r aer o wresogi?

(a) Llŵch [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

(b) NO_x [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Prosesu metelau fferrus (ffurfio) - cwestiynau cyffredinol

Q7. A yw'r BATC yn adlewyrchu'r technegau mwyaf effeithiol a datblygedig yn y sector ffurfio metelau fferrus? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach i gefnogi eich ymateb yma, gan gynnwys cyfeiriad at rifau BAT perthnasol.

Q8. A yw'r technegau a amlinellir yng nghasgliadau'r BAT yn hyfyw yn economaidd ac yn dechnegol ddichonadwy i fusnesau yn y diwydiant ffurfio metelau fferrus? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach i gefnogi eich ymateb yma, gan gynnwys cyfeiriad at rifau BAT perthnasol.

Q9. Os oes gennych chi unrhyw dystiolaeth dechnegol, data, ystyriaethau cost neu adborth ar unrhyw un o'r BAT ar gyfer y sector hwn rydych chi'n credu y mae angen i DEFRA eu hystyried, rhowch y dystiolaeth honno isod.

Os yw'n berthnasol, dylech gynnwys cyfeiriadau at rifau BAT rydych chi'n rhoi sylwadau arnynt.

Adran 3. Y sector prosesu metelau fferrus (galfaneiddio)

Cefndir

Mae galfaneiddio yn broses allweddol wrth brosesu metelau fferrus, sy'n cynnwys rhoi araen sinc amddiffynnol ar ddu i atal rhydu. Mae'r broses hon yn rhan annatod o lawer o ddiwydiannau, gan gynnwys adeiladu, trafniadaeth, amaethyddiaeth a thrawsyrro pŵer, sy'n gwneud i gynhyrchion bara'n hirach a lleihau costau cynnal a chadw.

Trosolwg o safleoedd rheoledig yn y DU

Yn 2023, roedd gan y sector prosesu metelau fferrus (galfaneiddio) 47 o safleoedd trwyddedig yn y DU. 34 wedi'u lleoli yn Lloegr, 4 yng Nghymru, 4 yn yr Alban a 5 yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r sector hwn yn cynnwys safleoedd galfaneiddio swp sy'n dod o fewn cwmplas y BATC hyn os eir y tu hwnt i'r naill drothwy canlynol neu'r llall:

- mewnbwn o fwy na 2 dunnell o ddu crai (stoc bwydo) yr awr, neu
- mae cyfaint y tanciau triniaeth yn fwy na 30m³

BATC y DU ar gyfer y diwydiant prosesu metelau fferrus (galfaneiddio)

[Drafft ffurfiol BATC y DU ar gyfer y Diwydiant Prosesu Metelau Fferrus \(Galfaneiddio\)](#)

[Canllawiau dehongli a gwybodaeth atodol drafft ffurfiol BATC y DU ar gyfer y Diwydiant Prosesu Metelau Fferrus \(Galfaneiddio\)](#)

Prosesu metelau fferrus (galfaneiddio) - cwestiynau penodol

Ar sail proses sgrinio a oedd yn cynnwys mewnbwn gan aelodau'r TWG, nodwyd y BATC a allai arwain at y newidiadau mwyaf sylweddol mewn allyriadau neu gostau i'r diwydiant. Manylir isod ar y BATC a nodwyd drwy'r broses hon, ynghyd â chwestiynau penodol ar bob un o'r rhain.

Effeithlonrwydd ynni y broses wresogi

Mae'r BAT yn gofyn am ddefnyddio technegau i gynyddu effeithlonrwydd ynni wrth wresogi (gan gynnwys gwresogi / sychu darnau gwaith, yn ogystal â gwresogi baddonau a thegellau galfaneiddio) a chydymffurfio â lefelau perfformiad amgylcheddol sy'n gysylltiedig â BAT (BAT-AEPLs).

- Mae **BAT 9** yn ymdrin â thechnegau i gynyddu effeithlonrwydd ynni a BAT-AEPLs ar gyfer defnydd ynni penodol mewn gweithgareddau galfaneiddio swp.
- Mae **BAT 7** yn ymdrin â'r gofynion monitro ar gyfer allyriadau i'r aer sy'n cael eu sianelu.

Q10. A yw'r technegau, BAT-AEPLs a'r gofynion monitro i gynyddu effeithlonrwydd ynni yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Allyriadau i'r aer o ddipio poeth

Mae'r BAT yn gofyn am ddefnyddio technegau i leihau allyriadau llwch a sinc i'r aer o ddipio poeth¹ ar ôl ffrydio mewn gweithgareddau galfaneiddio swp, monitro allyriadau sydd wedi'u sianelu a chydymffurfio â lefelau allyriadau sy'n gysylltiedig â BAT (BAT-AELs).

- Mae **BAT 26** yn ymdrin â thechnegau i leihau allyriadau i'r aer a BAT-AELs ar gyfer allyriadau llwch i'r aer sydd wedi'u sianelu.
- Mae **BAT 7** yn ymdrin â'r gofynion monitro ar gyfer allyriadau i'r aer sy'n cael eu sianelu.

Q11. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro i leihau allyriadau i'r aer o ddipio poeth mewn gweithgareddau galfaneiddio swp yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Effeithlonrwydd deunyddiau wrth biclo

Mae'r BAT yn amlinellu'r mesurau angenrheidiol i fonitro a lleihau faint o asid piclo a ddisbyddwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn ystod y broses galfaneiddio, a'r BAT-AELs ar gyfer defnydd penodol o asid piclo.

- Mae **BAT 13** yn ymdrin â thechnegau a BAT-AELs i leihau faint o asid a ddisbyddwyd sy'n cael ei gynhyrchu.
- Mae **BAT 7** yn ymdrin â'r gofynion monitro ar gyfer allyriadau i'r aer sy'n cael eu sianelu.

Q12. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro i leihau faint o asid a ddisbyddwyd yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

¹ Trochi mewn sinc tawdd i greu araeu

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Effeithlonrwydd deunyddiau wrth adfer asid a ddisbyddwyd

Er mwyn lleihau faint o asidau a ddisbyddwyd sy'n cael eu hanfon i'w gwaredu o weithgareddau piclo, mae'r BAT yn mynnu bod asid piclo a ddisbyddwyd² yn cael ei adfer neu ei ddefnyddio fel deunydd crai eilaidd (e.e. i gynhyrchu haearn clorid neu bigmentau).

- Mae **BAT 17** yn ymdrin â'r technegau ar gyfer adfer asidau piclo

Q13. Ai'r technegau adfer asid yw'r dulliau mwyaf priodol ac effeithiol i'r sector leihau faint o asid a ddisbyddwyd sy'n cael ei anfon i gael ei waredu? [IE / NA / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Prosesu metelau fferrus (galfaneiddio) - cwestiynau cyffredinol

Q14. A yw'r BATC yn adlewyrchu'r technegau mwyaf effeithiol a datblygedig yn y sector metelau fferrus (galfaneiddio)? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach i gefnogi eich ymateb yma, gan gynnwys cyfeiriad at rifau BAT perthnasol.

Q15. A yw'r technegau a amlinellir yng nghasgliadau'r BAT yn hyfyw yn economaidd ac yn dechnegol ddichonadwy i fusnesau yn y diwydiant metelau fferrus (galfaneiddio)? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach i gefnogi eich ymateb yma, gan gynnwys cyfeiriad at rifau BAT perthnasol.

Q16. Os oes gennych chi unrhyw dystiolaeth dechnegol, data, ystyriaethau cost neu adborth ar unrhyw un o'r BAT ar gyfer y sector hwn rydych chi'n credu y mae angen i DEFRA eu hystyried, rhowch y dystiolaeth honno isod.

Os yw'n berthnasol, dylech gynnwys cyfeiriadau at rifau BAT rydych chi'n rhoi sylwadau arnynt.

² Mae asid piclo yn cyfeirio at doddiant sy'n cynnwys asid, fel asid hydroclorig neu asid sylffwrig, sy'n cael ei ddefnyddio i gael gward ar amhureddau, staeniau, rhwd, neu haenau o arwyneb metelau fferrus

Adran 4. Y sector tecstilau

Cefndir

Mae'r sector tecstilau yn cwmpasu prosesau diwydiannol fel rhagdriniaeth, lliwio, araenu, argraffu a gorffen tecstilau. Mae'r prosesau hyn yn cefnogi'r gwaith o gynhyrchu amrywiaeth eang o nwyddau, gan gynnwys dillad, dillad gwely, carpedi a thecstilau cartref eraill. Yn y DU, mae'r sector yn cynnwys tai lliwio, sgwrwyr gwlan a gweithgynhyrchwyr carpedi yn bennaf. Mae prosesau cyffredin yn y sector yn cynnwys golchi, cannu, sgleinio a lliwio ffibrau neu decstilau gorffenedig.

Trosolwg o safleoedd rheoledig yn y DU

Yn 2023, roedd gan y sector tecstilau 26 o safleoedd trwyddedig yn y DU. Roedd 23 o'r rhain yn Lloegr, 2 yn yr Alban ac 1 yng Ngogledd Iwerddon. Gwyddom fod 3 o'r safleoedd hyn wedi stopio gweithredu.

BATC y DU ar gyfer y diwydiant tecstilau

[Drafft ffurfiol BATC y DU ar gyfer y Diwydiant Tecstilau](#)

[Canllawiau dehongli a gwybodaeth atodol drafft ffurfiol BATC y DU ar gyfer y Diwydiant Tecstilau](#)

Tecstilau - cwestiynau penodol

Ar sail proses sgrinio a oedd yn cynnwys mewnbwn gan aelodau'r TWG, nodwyd y BATC a allai arwain at y newidiadau mwyaf sylweddol mewn allyriadau neu gostau i'r diwydiant. Manylir isod ar y BATC a nodwyd drwy'r broses hon, ynghyd â chwestiynau penodol ar bob un o'r rhain.

Monitro allyriadau i'r aer sy'n cael eu sianelu

Mae'r BAT yn mynnu bod allyriadau i'r aer sy'n cael eu sianelu yn ystod rhai gweithgareddau prosesu penodol yn cael eu monitro, yn unol â'r safonau EN neu ISO perthnasol.³

- Mae **BAT 22** yn ymdrin â gofynion ac amllder monitro ar gyfer allyriadau i'r aer sy'n cael eu sianelu.

³ Mae safonau EN (*European Norm*) ac ISO (Sefydliad Rhyngwladol er Safoni) yn ganllawiau a gydnabyddir yn eang sy'n sicrhau ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd ar draws diwydiannau.

Q17. A yw'r gofynion i fonitro allyriadau sy'n cael eu sianelu yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Lleihau allyriadau gwasgaredig i'r aer

Mae'r BAT yn mynnu bod gweithredwyr yn lleihau allyriadau gwasgaredig i'r aer (er enghraifft cyfansoddion organig anwedddol (VOC) o ddefnyddio toddyddion organig) ac yn casglu ac yn anfon y nwyon gwastraff hyn i'w trin.

- Mae **BAT 48** yn manylu ar y gofyniad i gasglu a thrin nwyon gwastraff i leihau allyriadau gwasgaredig i'r aer.

Q18. A yw'r gofyniad i gasglu a thrin allyriadau gwasgaredig i'r aer yn briodol i'r diwydiant? [YDY / NAC YDY / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Allyriadau i'r aer o ddarlogsi, triniaeth thermol, araenu a lamineiddio

Mae'r BAT yn mynnu bod technegau'n cael eu defnyddio i atal neu leihau allyriadau cyfansawdd organig i'r aer sydd wedi'u sianelu drwy ddarlogsi, triniaeth thermol, prosesau araenu a lamineiddio, monitro allyriadau sydd wedi'u sianelu a chydymffurfio â lefelau allyriadau sy'n gysylltiedig â BAT (BAT-AELs).

- Mae **BAT 51** yn ymdrin â thechnegau a BAT-AELs i leihau allyriadau cyfansawdd organig i'r aer sydd wedi'u sianelu.
- Mae **BAT 22** yn ymdrin â'r gofynion monitro ar gyfer allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu.

Q19. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro i leihau allyriadau i'r aer o ddarlogsi, triniaeth thermol, prosesau araenu a lamineiddio yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Allyriadau i'r aer o ddarlosgi a thriniaeth thermol (ac eithrio thermosefydlogi a gosod gwres).

Mae'r BAT yn gofyn am ddefnyddio technegau i atal neu leihau allyriadau llwch i'r aer sydd wedi'u sianelu o ddarlosgi a thriniaeth thermol (ac eithrio thermosefydlogi a gosod gwres).

Mae hefyd angen monitro allyriadau sydd wedi'u sianelu a chydymffurfiaeth â lefelau allyriadau sy'n gysylltiedig â BAT (BAT-AELs).

- Mae **BAT 52** yn ymdrin â thechnegau a BAT-AELs i leihau allyriadau llwch i'r aer sydd wedi'u sianelu.
- Mae **BAT 22** yn ymdrin â'r gofynion monitro ar gyfer allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu.

Q20. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro i leihau allyriadau llwch i'r aer o ddarlosgi a thriniaeth thermol yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Allyriadau amonia o araenu, argraffu a gorffen (gan gynnwys triniaethau thermol)

Mae'r BAT yn gofyn am ddefnyddio technegau i atal neu leihau allyriadau amonia i'r aer sydd wedi'u sianelu o araenu, argraffu a phrosesau gorffen, monitro allyriadau sydd wedi'u sianelu a chydymffurfiaeth â lefelau allyriadau sy'n gysylltiedig â BAT (BAT-AELs).

- Mae **BAT 53** yn ymdrin â thechnegau a BAT-AELs i leihau allyriadau amonia i'r aer sydd wedi'u sianelu.
- Mae **BAT 22** yn ymdrin â'r gofynion monitro ar gyfer allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu.

Q21. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro i leihau allyriadau amonia i'r aer o araenu, argraffu a phrosesau gorffen yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Tecstilau - cwestiynau cyffredinol

Q22. A yw'r BATC yn adlewyrchu'r technegau mwyaf effeithiol a datblygedig yn y sector tecstilau? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach i gefnogi eich ymateb yma, gan gynnwys cyfeiriad at rifau BAT perthnasol.

Q23. A yw'r technegau a amlinellir yng nghasgliadau'r BAT yn hyfyw yn economaidd ac yn dechnegol ddichonadwy i fusnesau yn y diwydiant tecstilau? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach i gefnogi eich ymateb yma, gan gynnwys cyfeiriad at rifau BAT perthnasol.

Q24. Os oes gennych chi unrhyw dystiolaeth dechnegol, data, ystyriaethau cost neu adborth ar unrhyw un o'r BAT ar gyfer y sector hwn rydych chi'n credu y mae angen i DEFRA eu hystyried, rhowch y dystiolaeth honno isod.

Os yw'n berthnasol, dylech gynnwys cyfeiriadau at rifau BAT rydych chi'n rhoi sylwadau arnynt.

Adran 5. Rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol

Cefndir

Mae BATC y DU ar gyfer Systemau Trin a Rheoli Nwy Gwastraff Cyffredin yn y Sector Cemegol wedi'i anelu at y sector cemegion cyfan. Mae sectorau mawr yn niwydiant cemegol y DU yn cynnwys gwyddorau bywyd, gwyddoniaeth a thechnoleg, cemegion organig ac anorganig a chynhyrchion fferyllol.

Mae'r BATC yn cwmpasu llawer o brosesau cemegol lle mae allyriadau i'r aer, nad ydynt fel arall yn dod o dan un neu fwy o gasgliadau BAT yr UE, gan gynnwys: ar gyfer cynhyrchu *chlor-alkali* (CAK), ar gyfer systemau trin / rheoli dŵr gwastraff a nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol (CWW), ar gyfer cynhyrchu cemegion organig uchel eu cyfaint (LVOC), ac ar gyfer cynhyrchu cemegion anorganig uchel eu cyfaint (LVIC⁴).

Trosolwg o safleoedd rheoledig yn y DU

Yn 2023, ar sail cwmpas yr adolygiad sy'n berthnasol i bob safle Rhan A yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, a phob safle Rhan A(1) yng Nghymru a Lloegr, mae'r sector cemegion yn cynnwys tua 460 o safleoedd trwyddedig yn y DU. Roedd hyn yn cynnwys 19 yn yr Alban, 4 yng Ngogledd Iwerddon, 418 yn Lloegr ac 19 yng Nghymru.

Amcangyfrifir mai casgliadau BAT y DU y WGC fydd y prif set o gasgliadau BAT, yn tua 300 o'r 460 o safleoedd cemegol hyn.

BAT y DU ar gyfer rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol

[Drafft ffurfiol BATC y DU ar gyfer systemau rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol](#)

[Canllawiau dehongli a gwybodaeth atodol drafft ffurfiol BATC y DU ar gyfer systemau rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol](#)

⁴ Mae BATC y DU ar gyfer LVIC wrthi'n cael eu datblygu <https://www.gov.uk/government/groups/uk-bat#current-status-of-uk-batc>

Rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol - cwestiynau penodol

Ar sail proses sgrinio a oedd yn cynnwys mewnbwn gan aelodau'r TWG, nodwyd y BATC a allai arwain at y newidiadau mwyaf sylweddol mewn allyriadau neu gostau i'r diwydiant. Manylir isod ar y BATC a nodwyd drwy'r broses hon, ynghyd â chwestiynau penodol ar bob un o'r rhain.

Allyriadau cemegion organig i'r aer

Mae'r BAT yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio technegau i atal neu leihau allyriadau cyfansoddion organig i'r aer, monitro allyriadau sydd wedi'u sianelu, a chydymffurfio â lefelau allyriadau sy'n gysylltiedig â BAT (BAT-AELs).

- Mae **BAT 11** yn ymdrin â thechnegau i leihau allyriadau i'r aer a BAT-AELs ar gyfer allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu.
- Mae **BAT 8** yn ymdrin â'r gofynion monitro ar gyfer allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu.

Q25. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro i leihau allyriadau cemegion organig i'r aer yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Allyriadau cemegion anorganig i'r aer

Mae'r BAT yn gofyn am ddefnyddio technegau i leihau allyriadau cyfansoddion anorganig (carbon monocsid, NO_x a SO_x) i'r aer o ganlyniad i driniaeth thermol, monitro allyriadau sydd wedi'u sianelu a chydymffurfio â lefelau allyriadau sy'n gysylltiedig â BAT (BAT-AELs).

- Mae **BAT 16** yn ymdrin â thechnegau i leihau allyriadau i'r aer a BAT-AELs ar gyfer allyriadau llwch i'r aer sydd wedi'u sianelu o driniaeth thermol.
- Mae **BAT 8** yn ymdrin â'r gofynion monitro ar gyfer allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu.

Q26. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro i leihau allyriadau i'r aer o driniaeth thermol yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Monitro allyriadau VOC gwasgaredig

Mae'r BAT yn gofyn am fonitro allyriadau VOC gwasgaredig i'r aer yn ystod gweithgareddau prosesu penodol, yn unol â safonau EN neu ISO perthnasol. Mae'r BAT yn berthnasol pan fydd yr amcangyfrif blynyddol o allyriadau VOC gwasgaredig o'r safle yn fwy na'r gwerthoedd a nodir yng nghanllawiau'r BAT.

- Mae **BAT 22** yn ymdrin â gofynion ac amllder monitro ar gyfer allyriadau VOC gwasgaredig i'r aer.

Q27. A yw'r gofynion i fonitro allyriadau VOC gwasgaredig yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Atal neu leihau allyriadau VOC gwasgaredig

Mae'r BAT yn gofyn am ddefnyddio cyfuniad o dechnegau i atal neu leihau allyriadau VOC gwasgaredig i'r aer, monitro allyriadau a chydymffurfio â lefelau allyriadau sy'n gysylltiedig â BAT (BAT-AELs) o ddefnyddio toddyddion neu aildefnyddio toddyddion sydd wedi'u hadfer.

- Mae **BAT 23** yn manylu ar y technegau i leihau allyriadau VOC gwasgaredig i'r aer yn nhrefn blaenoriaeth.
- Mae **BAT 20**, **BAT 21** a **BAT 22** yn ymdrin â'r gofynion monitro.

Q28. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro i leihau allyriadau VOC gwasgaredig i'r aer yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Allyriadau i'r aer o ffwrneisi prosesu / gwresogyddion

Mae'r BAT yn berthnasol pan fydd ffwrneisi prosesu / gwresogyddion sydd â chyfanswm mewnbwn thermol â sgôr o 1 MW neu fwy yn cael eu defnyddio yn y prosesau cynhyrchu sydd wedi'u cynnwys yng nghwmpas y BATC ar gyfer Systemau Trin a Rheoli Nwy Gwastraff Cyffredin yn y Sector Cemegol.

Mae'r BAT yn gofyn am ddefnyddio hylosgiad wedi'i optimeiddio ynghyd â thechnegau eraill i atal neu leihau allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu o garbon monocsid (CO), llwch, NO_x a SO_x. Ar ben hynny, mae'r BAT yn gosod lefelau allyriadau cysylltiedig (BAT-AEL) ar gyfer allyriadau NO_x i'r aer sydd wedi'u sianelu a lefelau allyriadau dangosol ar gyfer allyriadau carbon monocsid (CO) i'r aer sydd wedi'u sianelu.

- Mae **BAT 24** yn manylu ar y technegau i leihau allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu o ffwrneisi prosesu / gwresogyddion.

- Mae **BAT 8** yn ymdrin â'r gofynion monitro ar gyfer allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu.

Q29. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro i leihau allyriadau i'r aer o ffwrneisi prosesu / gwresogyddion yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Allyriadau i'r aer o gynhyrchu fisgos

Mae'r BAT yn gofyn am ddefnyddio technegau i leihau allyriadau carbon deusylffid (CS₂) a hydrogen sylffid (H₂S) i'r aer. Ar ben hynny, mae'r BAT yn gosod lefelau allyriadau cysylltiedig (BAT-AEL) ar gyfer allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu o CS₂ a H₂S o gynhyrchu fisgos gan ddefnyddio CS₂ ac o gynhyrchu ffibrau styffylu a chasinau wedi'u mynegi fel llwythi allyriadau penodol.

- Mae **BAT 36** yn manylu ar y technegau i leihau allyriadau i'r aer sydd wedi'u sianelu o gynhyrchu fisgos gan ddefnyddio carbon deusylffid.
- Mae **BAT 34** yn ymdrin â'r gofynion monitro.

Q30. A yw'r technegau, BAT-AELs a'r gofynion monitro i leihau allyriadau i'r aer o'r broses sy'n gysylltiedig â chynhyrchu fisgos yn briodol i'r diwydiant? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth i gefnogi eich ymateb yma.

Rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol - cwestiynau cyffredinol

Q31. A yw'r BATC yn adlewyrchu'r technegau mwyaf effeithiol a datblygedig yn y gwaith o reoli a thrin nwyon gwastraff yn y sector cemegol? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach i gefnogi eich ymateb yma, gan gynnwys cyfeiriad at rifau BAT perthnasol.

Q32. A yw'r technegau a amlinellir yng nghasgliadau'r BAT yn hyfyw yn economaidd ac yn dechnegol ddichonadwy i fusnesau yn y diwydiant rheoli a thrin nwy gwastraff yn y diwydiant cemegol? [YDYN / NAC YDYN / DIM BARN]

Ychwanegwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach i gefnogi eich ymateb yma, gan gynnwys cyfeiriad at rifau BAT perthnasol.

Q33. Os oes gennych chi unrhyw dystiolaeth dechnegol, data, ystyriaethau cost neu adborth ar unrhyw un o'r BAT ar gyfer y sector hwn rydych chi'n credu y mae angen i DEFRA eu hystyried, rhowch y dystiolaeth honno isod.

Os yw'n berthnasol, dylech gynnwys cyfeiriadau at rifau BAT rydych chi'n rhoi sylwadau arnynt.

Beth nesaf?

Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori hyn yn cael eu hadolygu a'u dadansoddi i lywio barn Gweinidogion, rheoleiddwyr a'r TWGs fel y bo'n briodol. Dilynr hyn gan broses ddeddfwriaethol.

Mae cyfnod gweithredu o 4 blynedd i ddiwydiannau presennol gydymffurfio â'r BATC priodol. Bydd yn ofynnol i fusnesau newydd gydymffurfio â'r BATC diweddaraf ar ôl y dyddiad gweithredu, a fydd yn cael ei ymgorffori'n ffurfiol yn amodau eu trwydded.

Geirfa

Mae'r adran hon yn rhoi diffiniadau o dermau ac acronymau allweddol a ddefnyddir drwy gydol y ddogfen hon.

BAT - Technegau Gorau sydd ar Gael. Y dulliau mwyaf effeithiol a datblygedig o atal neu leihau allyriadau ac effeithiau amgylcheddol, sy'n hyfyw yn economaidd ac yn dechnegol.

BAT-AEL - Lefel Allyriadau Cysylltiedig â'r BAT. Lefelau allyriadau sy'n gysylltiedig â'r BAT, a ddefnyddir i osod terfynau mewn trwyddedau amgylcheddol.

BAT-AEPL - Lefelau Perfformiad Amgylcheddol Cysylltiedig â'r BAT. Lefelau perfformiad (er enghraifft, effeithlonrwydd ynni neu ddeunyddiau) sy'n gysylltiedig â'r BAT, a ddefnyddir i asesu'r effaith amgylcheddol y tu hwnt i allyriadau.

BATC - Casgliadau BAT. Casgliadau ffurfiol ar BAT, gan gynnwys disgrifiadau, perthnasedd a lefelau cysylltiedig. Y rhain yw'r sail ar gyfer safonau rheoleiddio.

BREF - Dogfen Gyfeirio BAT. Dogfennau'r UE sy'n disgrifio'r BAT ar gyfer sectorau penodol, a ddefnyddir fel canllaw wrth ddatblygu BATC y DU.

CAK - Chlor-Alkali

CO - Carbon Monocsid

CS₂ - Carbon Deusylffid

CWW - Systemau Trin / Rheoli Dŵr Gwastraff a Nwy Gwastraff Cyffredin

DMA - Asesiad De Minimis. Hunanardystiad sy'n cadarnhau bod mesur rheoleiddio yn gosod cost fach iawn i fusnesau, ac nad oes angen Asesiad Effaith llawn.

ELV - Gwerth Terfyn Allyriadau. Terfynau cyfreithiol rwymol ar allyriadau o safleoedd diwydiannol, yn aml yn seiliedig ar BAT-AELs.

EN - Norm Ewropeaidd. Safonau Ewropeaidd sy'n diffinio arferion gorau ar gyfer monitro a sicrhau ansawdd.

FMPF - Prosesu Metelau Fferrus - Ffurio. Sector sy'n ymwneud â rholio a thynnu cynnyrch dur.

FMPG - Prosesu Metelau Fferrus - Galfaneiddio. Sector sy'n ymwneud ag araenu sinc ar ddu i atal crydu.

H₂S - Hydrogen Sylffid.

IED - Cyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol. Deddfwriaeth yr UE sy'n gosod rheolau ar gyfer allyriadau diwydiannol.

ISO - Sefydliad Rhyngwladol er Safoni. Safonau rhyngwladol sy'n diffinio arferion gorau ar gyfer monitro a sicrhau ansawdd.

LVIC - Cemegion Anorganig Uchel eu Cyfaint. Gweithgareddau diwydiannol sy'n cynnwys cynhyrchu sylweddau anorganig ar raddfa fawr fel asid sylffwrig, amonia a chlorin.

LVOC - Cemegion Organig Uchel eu Cyfaint. Gweithgynhyrchu diwydiannol o gyfansoddion organig uchel eu cyfaint fel ethylen, bensen a methanol.

MW - Megawat

NH₃ - Amonia

NO_x - Ocsidau Nitrogen

SO_x - Ocsidau Sylffwr

TWG - Gweithgor Technegol. Grwpiau o arbenigwyr o'r diwydiant, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill sy'n datblygu'r BATC gan ddefnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

TXT - Tecstilau. Sector sy'n cynnwys prosesu tecstilau diwydiannol fel lliwio a gorffennu.

BAT y DU - Y Technegau Gorau sydd ar Gael yn y Deyrnas Unedig. Fframwaith y DU ar gyfer gosod a chymhwyso'r BAT ar ôl ymadael â'r UE.

VOC - Cyfansoddion Organig Anwedol. Cemegion organig sy'n anweddu'n hawdd ac yn cyfrannu at lygredd aer.

WGC - Cemegion Nwy Gwastraff. Sector sy'n ymdrin â rheoli a thrin nwy gwastraff cyffredin yn y diwydiant cemegol.

I gael gwybodaeth am dermau technegol sy'n benodol i sector, edrychwch ar adran ddiffiniadau pob dogfen BATC ddrafft sydd ar gael [yma](#).